



Gwasanaeth Gofalwyr Powys

## **Cynllun Iaith Gymraeg Welsh Language Scheme**

Seilir y Cynllun Iaith Gymraeg hwn ar gynllun yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 6/10/14

## Cynnwys

|                                     |            |
|-------------------------------------|------------|
| Rhagarweiniad                       | tudalen 3  |
| Ein gwerthoedd a'n gweledigaeth     | tudalen 4  |
| Cyflenwi gwasanaethau               | tudalen 5  |
| Cyfathrebu gyda'r cyhoedd           | tudalen 6  |
| Ein delwedd gorfforaethol           | tudalen 7  |
| Gwefannau a chyfryngau cymdeithasol | tudalen 8  |
| Gweithredu a monitro                | tudalen 9  |
| Cwynion ac adborth                  | tudalen 10 |
| Atodiad 1 (Cynllun gweithredu)      | tudalen 11 |
| Atodiad 2 (Matrics Cyhoeddiadau)    | tudalen 18 |

## Rhagarweiniad

Elusen sy'n gweithio trwy Brydain gyfan yw'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, a sefydlwyd trwy uno 'The Princess Royal Trust for Carers' a Chroesffyrdd ym mis Ebrill 2012.

Diben yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yw gwella'r gefnogaeth, y gwasanaethau a'r gydnabyddiaeth i unrhyw un sy'n byw gyda'r sialensiau sy'n wynebu unigolion sy'n gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind sy'n sâl, yn fregus yn anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu ddibyniaeth, yn ddi-dâl. Ar y cyd gyda'n Partneriaid Rhwydwaith, ein nod yw sicrhau fod gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol ar gael i bob gofalwr yn y DU.

Gyda'n Partneriaid Rhwydwaith, rydym yn cynnig mynediad at seibiannau sydd mawr eu hangen, gwybodaeth a chyngor, addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith. Mae ein Partneriaid Rhwydwaith yn elwa o grantiau, dogfennau cyngor ac adroddiadau i wella gwasanaethau i ofalwyr. Rydym yn cynnig cyfryngau i ofalwyr a gofalwyr ifainc siarad gyda rhywun, a sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed, all-lein trwy ein gwasanaethau i ofalwyr a chynlluniau gofalwyr ifainc, ac ar-lein trwy ein gwefannau rhyngweithiol.

Mae tîm Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn rhan o'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr ond yn gweithio o'i swyddfa ei hun yng Nghaerdydd. Mae'n derbyn cyllid craidd trwy grant Adran 64 Llywodraeth Cymru a thrwy hynny, mae'n gorfod ystyried a gweithio yn unol ag agendâu'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr ac adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Mae ein Partneriaid Rhwydwaith ar draws Cymru yn elusennau annibynnol, ac yn aelodau'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Mae Tîm Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn annog ac yn cefnogi'r holl Partneriaid Rhwydwaith ar draws Cymru i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg o fewn eu sefydliadau unigol.

## Ein Gwerthoedd

- Grymuso pobl
- Cydraddoldeb a Chydbwysedd
- Cyfle i bobl leisio barn
- Trawsnewid bywydau
- Bod yn gyfrifol
- Sicrhau boddhad
- Gwneud gwaith da
- Creu cyfoeth cyhoeddus

## Ein gweledigaeth

Sicrhau fod gofalwyr yn meddu ar naws lles effeithiol a'u bod yn derbyn cydnabyddiaeth, yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i gyflawni'r cyfrifoldebau gofal maent wedi eu dewis.

## Ein cenhadaeth

Diben Gwasanaeth Gofalwyr Powys yw grymuso pob gofalwr a phob gofalwr ifanc i wella ansawdd eu bywydau a'u lles. Darperir ein gwasanaethau gan dîm bach sy'n gweithio o'n swyddfa a gweithwyr estyn allan mewn ardaloedd lleol, yn ogystal â gwirfoddolwyr (rhai wedi cymhwyso a rhan dan hyfforddiant yn ddibynnol ar y rôl) dan arweiniad rheolwyr timau sirol sy'n meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r cyd-destun trefol a gwledig. Defnyddir dull o weithio cyfannol wrth geisio gwireddu ein gweledigaeth gyda Gofalwyr.

Ymhlith ein gwasanaethau mae:

### Cymorth Un i Un

Hyfforddi (datblygiad personol), Mentora, Eiriolaeth, Cwnsela (staff cymwys a gwirfoddolwyr sy'n gweithio â chymorth), Gwybodaeth / Cyngor, Cyngor ar Fudd-daliadau, Gofal Seibiant.

### Gwaith Grŵp

Sesiynau 'taro heibio' rheolaidd, datblygu sgiliau, cymorth gan gyfoedion / cymdeithasol, Triplau / sesiynau preswyl 'Amser i fi fy hun'.

**Grymuso Gofalwyr a'u galluogi i gyfranogi** er mwyn dylanwadu ar bolisi a gwasanaethau ysgolion / colegau / cyflogwyr / gwasanaethau iechyd / gwasanaethau cymdeithasol / gwasanaethau seibiant.

**Dosbarthu gwybodaeth i Ofalwyr** (cylchlythyr / gwasanaeth ffôn / cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.

### Llinell gyngor dros y ffôn

## **Datganiad o Egwyddor**

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth weithio yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd mor bell â bod hyn yn ymarferol ac yn briodol dan yr amgylchiadau. Mae'r Cynllun hwn yn egluro sut y bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn gweithredu'r egwyddorion hyn o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, ble bynnag fo hynny'n ymarferol ac yn briodol.

## **Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau**

### **Polisiau a mentrau newydd**

Trwy ystyried y Gymraeg ac anghenion unigolion wrth lunio polisiau a mentrau newydd a diwygiedig, bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn gallu symud tuag at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Byddwn yn ymdrechu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn er mwyn symud yn agosach at egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Wrth gynllunio polisiau a mentrau newydd fydd yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn sicrhau y bydd pob datblygiad yn cydymffurfio ag ymrwymadau'r Cynllun. Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn asesu anghenion ieithyddol y gynulleidfa darged er mwyn cynnig y gwasanaeth mwyaf effeithiol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

### **Cyflenwi gwasanaethau**

Nod Gwasanaeth Gofalwyr Powys yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy i unigolion sy'n siarad Cymraeg. Bydd gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn cynnwys digon o staff/gwirfoddolwyr i ddiwallu'r gofyn ac anghenion pobl sydd am gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ardaloedd lle mae llai o staff/gwirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg, efallai na fydd gwasanaeth cyflawn trwy'r Gymraeg ar gael yn y lle cyntaf. Yn unol â'r amserlenni o ran gweithredu cynlluniau, byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn.

Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr gyda'r un safonau uchel trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg trwy:

- Sicrhau fod pob aelod o staff/gwirfoddolwr yn ymwybodol o ddulliau gwaith dwyieithog Gwasanaeth Gofalwyr Powys yng Nghymru a'u bod yn gwybod sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau Cymraeg.
- Sicrhau fod defnyddwyr gwasanaethau'n ymwybodol o ba aelodau staff/gwirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg trwy ddefnyddio bathodynau a phosteri laith Gwaith.
- Hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog o fewn ein swyddfeydd. Mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn darparu adnoddau i gynorthwyo yn hyn o beth.
- Darparu hyfforddiant a chyngor i staff/gwirfoddolwyr i hwyluso gweithredu'r Cynllun.
- Cael hyd i wasanaethau cyfieithu dibynadwy, uchel eu safon i sicrhau y caiff deunyddiau perthnasol eu cyfieithu'n gyflym ac mewn ffordd ddibynadwy. Mae'r Comisiynydd yn argymhell defnyddio cyfieithwyr proffesiynol.

## Cyfathrebu gyda siaradwyr Cymraeg

### Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Atebir pob llythyr Cymraeg a dderbynnir yn y Gymraeg.
- Atebir unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau yn y Gymraeg.
- Byddwn yn ymdrechu i sicrhau, mor bell ag sy'n bosib, y bydd yr amserlen o ran ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yr un peth ag yn Saesneg.
- Ar ôl cadarnhau y byddai'n well gan ohebydd gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth a anfonir at yr unigolyn dan sylw yn y dyfodol yn y Gymraeg.

Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yng Nghymru yn cadw bas data o unigolion sy'n dymuno derbyn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

Os nad yw dewis iaith unigolyn yn hysbys, er enghraifft o safbwynt anfon llythyrau safonol, bydd unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig at y cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog.

Os nad oes gan Wasanaeth Gofalwyr Powys staff ar gael i ymateb i ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ar lefel safonol, byddwn yn defnyddio asiantaeth cyfieithu proffesiynol.

### Cyfathrebu dros y ffôn

Cyhoeddir canllawiau i staff o ran arfer wrth ateb y ffôn. Atebir pob galwad allanol trwy ddefnyddio cyfarchion dwyieithog safonol:

'Bore da Powys Carers Service' / 'Prynhawn da Powys Carers Service' neu 'Bore da Gwasanaeth Gofalwyr Powys' / 'Prynhawn da Gwasanaeth Gofalwyr Powys'

Os nad yw aelod o staff yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog, bydd yn egluro'r sefyllfa i'r unigolyn sy'n galw, a chynnig gwasanaeth yn Gymraeg gan aelod o staff/gwirfoddolwr arall. Os nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg ar gael, gall yr unigolyn sy'n ffonio dewis cael galwad yn ôl gan siaradwr Cymraeg, anfon cais ysgrifenedig (copi caled/ebost) neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.

Yn dilyn sgwrs yn Gymraeg ar y ffôn, bydd unrhyw ohebiaeth wedi hynny, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ddibynnol ar ddewis yr unigolyn sy'n galw.

### Wyneb yn Wyneb

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys wedi ymrwymo i wneud pob ymdrech posib i sicrhau fod unigolion sydd am gael cyswllt wyneb yn wyneb gydag aelod o staff/gwirfoddolwr sy'n medru'r Gymraeg yn gallu gwneud hynny, ond cydnabyddir na fydd hynny wastad yn bosib. Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn cefnogi ac yn annog staff a leolir yng Nghymru i ddysgu Cymraeg. Wrth siarad gydag unigolion sydd wedi nodi taw'r Gymraeg yw eu dewis iaith, caiff staff eu hannog i siarad Cymraeg hyd at eithaf eu gallu.

## **Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus**

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru ar y cyd gydag amrediad eang o sefydliadau a grwpiau. Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn annog defnyddio'r Gymraeg yn ystod y digwyddiadau hyn. Cyhoeddir unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiadau hyn yn ddwyieithog, gan gynnwys arddangosfeydd a chyflwyniadau i'r cyfryngau.

Wrth drefnu gweithdai, cyrsiau hyfforddi, cynadleddau a digwyddiadau tebyg, bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn asesu'r angen o ran darpariaeth yn y Gymraeg trwy gynnwys datganiad clir ar y deunyddiau cyhoeddusrwydd i nodi bod croeso i gynrychiolwyr gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg. Bydd adran ar bob ffurflen gofrestru i nodi dewis iaith cynrychiolwyr.

Wrth drefnu cyfarfod cyhoeddus, bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys, yn trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer y rhai sy'n bresennol nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## **Delwedd gorfforaethol**

### **Hunaniaeth gorfforaethol**

Yng Nghymru, bydd delweddau cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Gwasanaeth Gofalwyr Powys, gan gynnwys y logo, delweddau gweledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall, yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys papur pennawd, slipiau cyfarchion, cardiau busnes, bathodynau enwau, arddangosfeydd a chyhoeddiadau, arwyddion, cerbydau ac adeiladau.

Bydd y ddwy iaith yn gydradd o ran maint, fformat, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.

### **Arwyddion**

Yng Nghymru, pan fyddwn yn gosod arwyddion newydd, bydd pob arwydd allanol a mewnol mewn lleoliadau cyhoeddus yn adeiladau Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn ddwyieithog, ac yn gydradd o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Gosodir y fersiwn Cymraeg uwch ben neu o flaen y fersiwn Saesneg. Lle bo angen defnyddio arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal eu maint.

## **Cyhoeddiadau**

Cyhoeddir unrhyw ddogfennau a chyhoeddiadau eraill a gynhyrchir yng Nghymru i'w defnyddio yng Nghymru yn unig, yn ddwyieithog yn unol â dewis iaith yr unigolyn sy'n derbyn yr wybodaeth.

## **Datganiadau i'r Wasg**

Rydym wedi ymrwmo i gyhoeddi datganiadau a hysbysiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog ble bynnag fo hynny'n bosib.

Cyhoeddir datganiadau i'r wasg ar gyfer y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog. Deëllir y bydd angen cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Saesneg yn unig o dro i dro, ond fel arall, caiff y broses o gyfieithu datganiadau ei chynnwys fel rhan o'r amserlen o ran cynllunio.

Ble bynnag y bydd yn bosib, bydd datganiadau i'r wasg yn cynnwys manylion cyswllt cynrychiolydd ar ran Gwasanaeth Gofalwyr Powys sy'n siarad Cymraeg. Bydd gan yr unigolyn dan sylw ganiatâd i gynrychioli Gwasanaeth Gofalwyr Powys o fewn ffiniau ei wybodaeth.

## **Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth**

Bydd adrannau neu dudalennau gwefan allanol Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn ddwyieithog.

Bydd yr ieithoedd ar wahân, a bydd yn bosib i'r defnyddiwr symud o un iaith i'r llall ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r botwm newid iaith, fydd yn amlwg ar y dudalen.

Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ddogfennau a gyhoeddir gan Wasanaeth Gofalwyr Powys (yn seiliedig ar yr asesiad yn y matrices) a lanlwythir i'r wefan ar gael yn ddwyieithog ar yr un pryd.

## **Rhwydweithiau Electronig**

Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn archwilio i gyfleoedd i ddatblygu ei bresenoldeb yng Nghymru trwy rwydweithiau cymdeithasol megis Facebook a Twitter yn unol â datblygu presenoldeb y sefydliad ar gyfryngau cymdeithasol.

Wrth gynllunio neu ail-ddatblygu'r wefan neu unrhyw wasanaeth arall ym maes Technoleg Gwybodaeth, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: 'technoleg, gwefannau a meddalwedd: Ystyried Y Gymraeg'.

## **Gweithredu'r Cynllun**

### **Staffio**

Nod Gwasanaeth Gofalwyr Powys yw sicrhau fod digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddatblygu gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru. Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn cydnabod fod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil gwerthfawr a pherthnasol.

Byddwn yn llunio rhestr gyfredol sy'n nodi enwau'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob gweithiwr, cyfarwyddwr a gwirfoddolwr.

Pan sefydlir swydd newydd, neu os bydd swydd yn dod yn wag, gwneir asesiad gwrthrychol i asesu a oes angen sgil iaith Gymraeg neilltuol ar gyfer y swydd dan sylw megis: gallu sgwrsio yn Gymraeg gyda phobl sy'n derbyn cymorth gennym a'r cyhoedd; neu'r gallu i ysgrifennu negeseuon ebost yn Gymraeg; ac a oes opsiynau cymorth ychwanegol ar gael byddai'n annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swydd.



Lle dynodir fod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd, neu os bydd ymgeisydd ar y rhestr fer wedi nodi ei fod yn rhugl yn y Gymraeg, cynhelir prawf i asesu eu rhuglder llafar ac ysgrifenedig. Os bu anawsterau o ran recriwtio unigolyn sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle ystyrir fod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, efallai y bydd yn rhaid ystyried unigolyn nad yw'n medru siarad Cymraeg. Mewn achosion o'r fath, bydd aelod arall o staff yn gyfrifol am elfennau'r swydd sy'n gofyn am y gallu i siarad Cymraeg tra bydd y swyddog a benodir yn derbyn hyfforddiant yn yr iaith er mwyn cyrraedd y safon angenrheidiol o fewn amserlen a gytunir.

Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau yr hysbyseb a phroffir y gofynion ieithyddol mwyaf priodol a phenodol. Bydd pob hysbyseb swydd yng Nghymru'n ddwyieithog.

## **Dysgu Cymraeg**

Darperir hyfforddiant a chefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg i aelodau staff a gwirfoddolwyr sydd am ymestyn eu defnydd o'r iaith lle bo hynny'n briodol i'r swydd dan sylw neu i gynllun datblygu personol.

Cynhelir archwiliadau rheolaidd o broffil iaith defnyddwyr y gwasanaeth, staff a gwirfoddolwyr i sicrhau fod ein Cynllun Iaith Gymraeg a'r rhaglen hyfforddi yn parhau i ddiwallu anghenion iaith y sefydliad.

## **Gweithredu a monitro**

Cyflwynir adroddiad monitro a gwerthuso yn flynyddol i Brif Weithredwr Gwasanaeth Gofalwyr Powys ac anfonir copi at ddiben adborth at Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn seiliedig ar dempled adrodd Comisiynydd y Gymraeg, bydd y pwyntiau canlynol yn destun monitro ac yn rhan o'r adroddiad:

1. Gweithredu'r Cynllun
2. Blaengynllunio
3. Ymwybyddiaeth
4. Sgiliau Dwyieithog
5. Rhoi'r Defnyddiwr yn gyntaf
6. Cwynion
7. Casglu Data
8. Adrodd yn ôl
9. Amserlenni Gweithredu

Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd trwy ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

## **Cwynion ac Adborth**

Dylid cyflwyno unrhyw gwyn neu awgrym mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun ar lefel leol, a chaiff y rhain eu monitro gan Brif Weithredwr Gwasanaeth Gofalwyr Powys.

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd, ei staff ac aelodau er mwyn gwella'r Cynllun Iaith Gymraeg a'i wasanaeth.

### **Hysbysebu'r cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd**

Yn ei adroddiad blynyddol a'r cynllun busnes, bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn cyfeirio at y Cynllun, ac mewn deunyddiau cyffredinol lle bo hynny'n addas, gan egluro bod croeso i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda'r sefydliad a'i weithwyr.

Bydd y cynllun ar gael ar wefan Gwasanaeth Gofalwyr Powys a bydd copiau o'r cynllun ar gael i unrhyw un sy'n gofyn am gopi.

| <b>Maes<br/>Gweithgaredd</b>  | <b>Gweithredu</b>  | <b>Gan Bwy</b>   | <b>Amserlen</b>   |
|---|--|--|---|
| Datganiad o egwyddor  | Byddwn yn gofalu fod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i weithredu'r cynllun lle bo'n berthnasol.  | Rheolwyr Gwasanaeth  | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun ac yn barhaus trwy'r rhaglen ymsefydlu |
|   | Adnabod a phenodi Hyrwyddwr y Gymraeg o fewn y timau Cyfathrebu, Polisi, Codi Arian a Chymorth Rhwydwaith.   | Rheolwyr Gwasanaeth Gofalwyr Powys                               | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun  |
| <b><u>Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau</u></b><br><br>Polisiau a mentrau newydd | Ystyried anghenion unigolion o safbwynt y Gymraeg wrth ddatblygu polisiau a mentrau newydd a diwygiedig.   | Y Rheolwr Gwasanaeth Perthnasol o fewn Gwasanaeth Gofalwyr Powys | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun  |
|   | Wrth gynllunio polisiau a mentrau newydd sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, bydd Gofalwyr Powys yn sicrhau fod pob datblygiad yn cydymffurfio ag ymrwymadau'r Cynllun hwn.                     | Y Pwyllgor Ansawdd   | Parhaus   |
|   | Bydd pob adran o fewn Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn ymwybodol o ofynion y cynllun.  | Y Prif Weithredwr trwy'r Uwch Dîm Rheoli                         | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun  |
|   | Bydd rhestr wirio ar gael i staff er mwyn adnabod materion y dylid eu hystyried wrth lunio polisiau a mentrau newydd.  | Y Prif Weithredwr trwy'r Uwch Dîm Rheoli                         | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun  |
|   | Bydd yr Uwch Dîm Rheoli'n monitro cydymffurfiad polisiau a mentrau newydd mewn perthynas â'r Cynllun hwn.  | Bydd y Prif Weithredwr yn enwebu aelod o'r tîm.                  | Parhaus   |
| Cyflenwi gwasanaethau   | Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn gweithio tuag at y nod o gael digon o staff / gwirfoddolwyr i ddiwallu gofyn ac anghenion y bobl sydd am gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg fel yr amlinellir yn y cynllun hwn. | Prif Weithredwr  | Parhaus a bydd yn destun adolygiad blynyddol                        |

|   |   |  |  |
|---|---|--|--|
|   | <p>Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr, gyda'r un safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau fod pob aelod o staff/gwirfoddolwr yn gwybod sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau cyfrwng Cymraeg - trwy ddatblygu canllawiau cyfeirio</li> <li>• Sicrhau fod defnyddwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o ba staff/gwirfoddolwyr sy'n medru Cymraeg trwy ddefnyddio bathodynau a phosteri laith Gwaith</li> <li>• Hyrwyddo ein swyddfeydd fel gweithleoedd dwyieithog</li> <li>• Darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff/gwirfoddolwyr i hwyluso gweithredu'r cynllun.</li> <li>• Cael hyd i wasanaethau cyfieithu dibynadwy, sydd o safon uchel i sicrhau fod unrhyw ddeunyddiau perthnasol yn cael eu cyfieithu'n gyflym ac mewn ffordd ddibynadwy.</li> </ul> | Prif Weithredwr /aelod o staff enwebedig | Parhaus a bydd yn destun adolygiad blynyddol |
| <p><b><u>Cyfathrebu gydag aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg</u></b></p> <p><b>Gohebiaeth Ysgrifenedig</b></p> | <p>Bydd y Prif Weithredwr yn cadw bas data o unigolion sydd am dderbyn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.</p> <p>Os nad yw dewis unigolyn yn hysbys i'r sefydliad, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, bydd unrhyw ohebiaeth gyda'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog.</p> <p>Os nad oes gan Wasanaeth Gofalwyr Powys staff ar gael i ddelio gyda gohebiaeth yn y Gymraeg hyd at y safon angenrheidiol, byddwn yn defnyddio asiantaeth cyfieithu proffesiynol.</p>   | Rheolwr Gweithrediadau                   | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun                 |

|   |  |   |                              |
|---|--|---|------------------------------|
| Cyfathrebu dros y ffôn  | Caiff pobl sydd am sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg eu cyfeirio at aelod o staff sy'n medru Cymraeg, neu bydd aelod o staff sy'n medru Cymraeg yn cysylltu â'r unigolyn dan sylw.  | Prif Weithredwr                           | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun |
| Cyswllt Wyneb yn Wyneb  | Trwy hysbysebu ein gwasanaethau Cymraeg, byddwn yn annog unigolion i ddefnyddio eu dewis iaith wrth ddelio gyda ni.  | Holl staff Gwasanaeth Gofalwyr Powys      | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun |
| <b><u>Delwedd Gorfforaethol</u></b><br><br>Hunaniaeth gorfforaethol | Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Gwasanaeth Gofalwyr Powys, gan gynnwys ein cyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys papur pennawd, slipiau cyfarchion, cardiau busnes, bathodynau enwau, arddangosfeydd a chyhoeddiadau, arwyddion, cerbydau ac adeiladau. Bydd y ddwy iaith yn gydradd o safbwynt maint, fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.   | Prif Weithredwr                           | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun |
| <b><u>Cyhoeddiadau</u></b>  | Byddwn yn llunio ac yn defnyddio matrices o feini prawf er mwyn penderfynu a ddylid cynhyrchu deunyddiau'n ddwyieithog ( <b>Atodiad 2</b> )  | Prif Weithredwr / aelod o staff enwebedig | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun |
| <b><u>Datganiadau i'r Wasg</u></b>                                  | Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg yn ddwyieithog, ble bynnag mae hynny'n bosib.<br><br>Caiff y broses o gyfieithu ei chynnwys yn yr amserlen o ran cynllunio ar gyfer cyhoeddi datganiadau i'r wasg. Deöllir, y bydd yn angenrheidiol o dro i dro, mewn argyfwng, cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Saesneg yn unig.<br><br>Ble bynnag fo'n bosib, bydd unrhyw ddatganiad i'r wasg yn cynnwys manylion cyswllt cynrychiolydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys sy'n siarad Cymraeg. | Prif Weithredwr                           | Yn sgil cymeradwyo'r cynllun |

|   |   |                           |  |
|---|---|---------------------------|--|
|   | <p>Bydd gan yr unigolyn hwn awdurdod i gynrychioli Gwasanaeth Gofalwyr Powys o fewn ffiniau eu gwybodaeth.<br/>(adnabod a hyfforddi cynrychiolwyr)</p> <p>Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn cadw rhestr o enwau cyswllt priodol.</p>  |                           |  |
| <b><u>Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth</u></b> | Bydd adrannau neu dudalennau gwe ar wefan allanol Gwasanaeth Gofalwyr Powys, sy'n ymwneud â gweithgareddau yng Nghymru'n benodol, yn ddwyieithog.   | Prif Weithredwr           | Parhaus                                    |
| <b><u>Gweithredu'r cynllun Staffio</u></b>      | <p>Byddwn yn llunio rhestr gyfredol o aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n medru Cymraeg.</p> <p>Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob gweithiwr, cyfarwyddwr a gwirfoddolwr - gweler isod.</p> <p>Pan sefydlir swydd newydd, neu os daw swydd yn wag yng Nghymru, gwneir asesiad gwrthrychol gan y rheolwr recriwtio trwy ymgynghori gyda'r Prif Weithredwr i asesu a ddylid dynodi'r swydd fel 'Cymraeg - Dymunol' neu 'Cymraeg - Hanfodol'.</p> | Rheolwr<br>Gweithrediadau | <p>Parhaus</p> <p>Cynigir yn flynyddol</p> |
| <b><u>Dysgu Cymraeg</u></b>                     | <p>Darperir hyfforddiant a chefnogaeth o ran defnyddio'r Gymraeg i bob aelod o staff a gwirfoddolwr sydd am ymestyn eu defnydd o'r iaith lle bo hynny'n briodol i'r proffil swydd neu fel rhan o'u cynllun datblygiad personol.</p> <p>Cynhelir archwiliadau rheolaidd o broffil iaith defnyddwyr y gwasanaeth, staff a gwirfoddolwyr i sicrhau y diwellir anghenion y sefydliad o ran y Gymraeg gan ein Cynllun Iaith Gymraeg a'r rhaglen</p>            | Rheolwr<br>Gweithrediadau | Yn flynyddol                               |

|   |  |                       |                        |
|---|--|-----------------------|------------------------|
|   | hyfforddi.   |                       |                        |
| <b><u>Hysbysebu'r cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd</u></b> | Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn cyfeirio at y Cynllun yn ei adroddiad blynyddol a'r cynllun busnes, ac mewn deunyddiau cyffredinol lle bo hynny'n briodol, gan egluro bod croeso i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda'r cwmni a'i weithwyr. | Prif Weithredwr       | Yn flynyddol / parhaus |
| <b>Hyrwyddo'r cynllun ymhlith Partneriaid Rhwydwaith</b>          | Bydd Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn hyrwyddo'r cynllun hwn ymhlith grwpiau lleol. Byddwn yn cynnig y cynllun fel templed o safbwynt defnydd lleol, ac yn cynnig cefnogaeth staff i unrhyw grŵp lleol sydd am ei weithredu.                                   | Rheolwyr Gwasanaethau | Yn flynyddol           |

## Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr 2014-2017

### Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr

### Matrics Cynllun Iaith Gymraeg

| <b>Ystyriaethau</b>   | <b>2 pwynt</b>                                   | <b>1 pwynt</b> | <b>0 pwynt</b> |
|---|--|----------------|----------------|
| Nifer o gopiau a argreffir (os taw fersiwn electronig yn unig, y nifer ar y rhestr dosbarthu neu amcangyfrif o'r nifer o drawiadau) | 1,000 +<br>(2,500 +, ychwanegu pwynt ychwanegol) | 150 – 1,000    | 1 – 150        |
| Hyd (neu nifer y geiriau newydd)  | 0 – 5,000  | 5,000 – 20,000 | 20,000 +       |
| Technegol (h.y. a fyddai'n annealladwy i'r darllenydd cyffredin?)   | Na   | I raddau       | le             |

|   |  |   |   |
|---|--|---|---|
| Cynulleidfa darged  | Aelodau'r cyhoedd neu'r sector cyhoeddus lle mae gofyn amlwg a sefydledig ar gyfer deunyddiau Cymraeg.   | Sectorau penodol megis: Byrddau Iechyd Lleol, y Sector Gwirfoddol, ond gyda pheth ddiddordeb anuniongyrchol i rai aelodau'r cyhoedd | Arbenigwyr o fewn sectorau neu sectorau penodol lle nad oes fawr o ofyn am ddeunyddiau cyfrwng Cymraeg. |
| A fydd angen dosbarthu neu drafod yr eitem yn fewnol gan gyrff eraill; a/neu a gafodd ei ddylunio i ennyn ymateb?   | Ie   | I raddau  | Na  |
| A fydd y ddogfen yn effeithio ar ddeunyddiau dilynol, h.y. a fydd yn cael ei ddyfynnu mewn deunyddiau yn y dyfodol? | Ie   | I raddau  | Na  |
| Beth fydd y gofyn/diddordeb tebygol yn y ddogfen, yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol a/neu ymarferion y gorfennol? | Uchel (sef diddordeb y cyhoedd yn gyffredinol neu o ddiddordeb penodol mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith) | Cymedrol (grwpiau penodol yn unig)  | Isef (grwpiau arbenigol)  |
| Am faint bydd y ddogfen yn weithredol?  | Dros 2 flynedd   | 6 mis – 2 flynedd   | Dros dro (llai na 6 mis)  |
| Beth fydd statws/proffil y ddogfen?   | Uchel (cyfryngau, ymgyrchoedd)   | Cymedrol (rhywfaint o broffil allanol)  | Isef (ychydig iawn o broffil allanol)   |
| Natur y ddogfen – elfen Gymraeg amlwg?  | Ie   | Anuniongyrchol  | Na  |

Dylid rhoi cylch o gwmpas yr ymateb perthnasol ar gyfer pob ystyriaeth, wedyn adio'r pwyntiau a ddangosir ar ben bob colofn i asesu blaenoriaeth o safbwynt y ddogfen.

13+ - Bydd y dogfennau hyn yn ddwyieithog\*

12 - 8 - Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog, ond bydd yn dibynnu a oes adnoddu cyfieithu ar gael ai peidio ar y pryd\*

7 – 0 – Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond gellir ailystyried yn y dyfodol\*



\* Bydd y fformiwla'n adlewyrchu'r angen ar gyfer dogfennau dwyieithog yn y mwyafrif o achosion. Er hynny, bydd eithriadau'n bodoli, a bydd angen ystyried yn ofalus wrth wneud eich penderfyniad.